WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Jeremy Patterson
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 26 Medi 2012 |
| **Ein cyfeirnod** | 474A2012 |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Rhif ffôn** | 029 2032 0500 |
| **E-bost** | WalesAuditOffice@WAO.gov.uk |
| **Tudalennau** | **1** o **12** |

Annwyl Jeremy

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Sir Powys (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol;
  - crynodeb byr o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol a gyhoeddwyd ers fy adroddiad diwethaf.
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion;
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn anfon llythyr arall erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i raddau mwy a bod ei gynllun gwella yn cyfleu'n effeithiol beth y mae'n mynd i'w wneud yn wahanol a sut y bydd hyn yn effeithio ar fywydau dinasyddion.

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn am i'm gwaith archwilio ac asesu ganfod bod amcanion gwella'r Cyngor a'i gynllun gwella blynyddol, *Cynllun Newid Powys 2012-15* (y Cynllun), yn bodloni gofynion y Mesur a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn gyffredinol ond yn y dyfodol byddai'n ddefnyddiol pe gallai Cynlluniau gyfeirio at ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a'i dylanwad ar y rhaglen wella. Mae'r Cynllun yn cynnwys ymateb y Cyngor i'n hargymhellion statudol ynghylch gwasanaethau i oedolion a gallu ac adnoddau a nodwyd gennym yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol ym mis Ionawr 2012, er nad yw'r argymhelliad ynghylch gallu ac adnoddau wedi'i ddatblygu'n fanwl.

Mae'r Cynllun yn ailddatgan y pum amcan gwella sy'n rhan o gyfraniad y Cyngor i ddeg canlyniad a rennir *Powys yn Un* y cytunodd arnynt ar y cyd â phartneriaid. Cymeradwywyd y canlyniadau hyn drwy ymgynghori â thrigolion a rhanddeiliaid eraill yn ystod haf 2011. Er bod rhagor o waith ymgynghori wedi digwydd ers hynny ar brosiectau a gynlluniwyd i gyflawni amcanion gwella'r Cyngor, nid yw'r cynllun yn cynnwys manylion y gwaith ymgynghori hwnnw.

Gallai'r Cynllun gyfleu'n fwy effeithiol beth mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud yn wahanol neu'r effaith a gaiff ei gamau gweithredu ar ddinasyddion. Mae'r Cyngor eto i fynd i'r afael â rhai o'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd gennym yn flaenorol mewn perthynas â'r Cynllun. Mae'r Cyngor wedi ceisio symleiddio’r Cynllun ond mewn mannau, mae'n dal i ddibynnu gormod ar dermau technegol sy'n annhebygol o fod yn gyfarwydd i bawb; er enghraifft yn achos y rhaglen ofal a lles: 'rhoi ar waith y swyddogaeth broceriaeth'; a 'dewislen o wasanaethau integredig ar draws yr haenau'. Mae'n briodol bod y Cyngor wedi ceisio symleiddio'r ffordd y mae'n disgrifio pob un o'i bum amcan gwella er mwyn canolbwyntio'n agosach ar ganlyniadau. Fodd bynnag, dim ond amlinelliad bras a geir o gamau gweithredu ac ni chânt eu gosod yn gyson yng nghyd-destun lefelau perfformiad presennol, sy'n golygu ei bod yn anodd barnu graddau'r llwyddiant yr anelir ato, neu beth mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud yn wahanol. Mae mesurau a thargedau ar waith ond ychydig iawn o'r rhain sy'n cyfeirio at y gwahaniaeth y mae'r Cyngor am ei wneud i fywydau dinasyddion. Mae angen gwneud mwy o waith hefyd i adlewyrchu camau gweithredu a mesurau priodol ar gyfer rhaglen adfywio'r Cyngor yn y Cynllun.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar roi strwythurau rheoli prosiectau a rhaglenni ar waith i'w helpu i gyflawni ei raglen wella a monitro ei gynnydd. Cafodd dyddiad cyhoeddi'r Cynllun ei ddwyn ymlaen i 1 Mawrth 2012 er mwyn cyd-fynd â phrosesau pennu cyllidebau a sicrhau y caiff digon o adnoddau eu clustnodi ar gyfer amcanion gwella. Mae'r Cyngor hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu mesurau llwyddiant sydd wedi'u teilwra yn well ar gyfer canlyniadau *Powys yn Un*. Mae gwybodaeth fanylach am y rhaglen wella ar gael mewn amrywiaeth o ddogfennau monitro a gyflwynir i fyrddau prosiect unigol. Fodd bynnag, at ddefnydd mewnol y Cyngor mae'r wybodaeth hon yn bennaf ac nid yw ar gael i'r cyhoedd yn uniongyrchol. Dylai'r Cyngor wneud mwy i egluro sut y gall darllenydd â diddordeb gael gafael ar ragor o wybodaeth neu ddarganfod mwy. Mae gan y Cyngor gynllun gwaith cynhwysfawr ar gyfer gohebiaeth fewnol ac allanol, gan deilwra negeseuon i sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn ddiddorol ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd targed gwahanol.

Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Cynllun ar wefan y Cyngor a chaiff y Cynllun ei hyrwyddo drwy erthygl cryno yng nghylchlythyr y Cyngor, *Barcud Coch*, a gaiff ei ddosbarthu i bob cartref. Mae copïau caled o'r Cynllun ar gael mewn llyfrgelloedd, mannau gwasanaethau cwsmeriaid a chanolfannau hamdden ac mae wedi'i hyrwyddo'n eang yn y wasg leol, gwefannau cyfryngau cymdeithasol ac erthyglau mewn cylchgronau staff.

## Yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol ac yn gyfyngedig iddo, ni allaf gasglu eto a yw'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Deuthum i'r casgliad hwn gan fod y Cyngor wedi gwneud llawer o gynnydd i roi trefniadau priodol ar waith mewn ymateb i'r argymhellion statudol a nodais yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Ionawr 2012. Ceir rhagor o fanylion isod am y trefniadau a sefydlwyd gan y Cyngor.

Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i mi werthuso a yw'r trefniadau hyn yn arwain at well canlyniadau gwasanaeth i ddinasyddion Powys, yn enwedig o ran gwasanaethau i oedolion sy'n agored i niwed, lle mae fy adroddiadau fy hun a rhai AGGCC wedi nodi bod angen gwelliant sylweddol. Er mwyn gwella canlyniadau gwasanaeth bydd rhaid cael arweinyddiaeth gadarn a phenderfynol, ymrwymiad ac ymroddiad staff gwasanaethau cymdeithasol galluog, a chymorth a her briodol gan dimau gwella corfforaethol a swyddogaethau craffu gwleidyddol - ni fydd y trefniadau yn arwain at welliant ar eu pen eu hunain.

Byddaf yn ystyried hunanasesiad y Cyngor o berfformiad ei wasanaethau cymdeithasol i oedolion ynghyd â barn AGGCC er mwyn gwerthuso a yw trefniadau gwell y Cyngor wedi arwain at welliant digonol mewn canlyniadau gwasanaeth. Byddaf yn adrodd ar fy nghanfyddiadau a'm casgliadau yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol, a gyhoeddir ar ddiwedd mis Mawrth 2013.

## Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Cynllun Busnes a luniwyd i wella perfformiad Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion ac mae wrthi'n monitro sut y caiff ei weithredu

Gwneuthum ddau argymhelliad statudol y llynedd ynghylch yr angen i fynd i'r afael â pherfformiad gwael mewn Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion, ac mae rheolwyr a gwleidyddion o fewn y Cyngor yn ymwybodol iawn bod angen iddo ddarparu tystiolaeth glir i ddangos bod y gwasanaeth wedi gwella yn ystod 2012.

Mae'r Cyngor wrthi'n ystyried cyfleoedd i feithrin gallu a gwella effeithlonrwydd/ effeithiolrwydd drwy gydweithredu. Ar hyn o bryd caiff swydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ei rhannu â Chyngor Sir Ceredigion, tra bod y ddau Gyngor yn cynnal astudiaeth ddichonolrwydd i fanteision posibl cydweithredu.

Mae'r Cyngor wedi derbyn ein canfyddiadau a'n casgliadau, ac wedi buddsoddi'n sylweddol yn y gwaith o ailgynllunio ei Gynllun Busnes ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion a helpu i'w gyflawni drwy drefniadau rheoli prosiect cadarn. Comisiynodd y Cyngor PriceWaterhouseCoopers (PWC) i’w cynorthwyo i wneud y gwaith hwn a oedd yn cynnwys ymgysylltu'n llawn â staff Gofal Cymdeithasol ar bob lefel i gynllunio a chyflawni'r agenda wella newydd.

Ar ôl iddo gymeradwyo'r Cynllun Busnes newydd, sefydlodd y Cyngor Fwrdd Rhaglen y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion ym mis Mawrth 2012, dan gadeiryddiaeth Arweinydd y Portffolio, gan gynnwys uwch-gynrychiolwyr staff o bob rhan o'r Cyngor. Rôl y Bwrdd yw monitro a herio cynnydd a chyflawniad y prosiectau amrywiol a nodir yn y Cynllun Busnes, ac mae wedi gweithio mewn ffordd agored a thryloyw gan wahodd fy staff i a staff AGGCC i ddod i arsylwi busnes y Bwrdd. Penododd y Cyngor hefyd Bennaeth dros dro i'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion sydd, ar y cyd â'r Cyfarwyddwyr, yn rhoi arweinyddiaeth a chyfeiriad clir i reolwyr gwasanaethau a staff; a chymorth a sicrwydd gwerthfawr o ran busnes y Bwrdd.

Mae llawer o brosiectau Cam 1 wedi'u cwblhau, neu ar fin cael eu cwblhau ac mae'r Bwrdd yn cydnabod ei bod yn adeg briodol iddo werthuso a yw wedi cyflawni'r canlyniadau dymunol ai peidio.

**Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd i fynd i'r afael â'r bylchau mewn sgiliau y mae angen eu llenwi ar unwaith i gyflawni ei flaenoriaethau gwella. Mae gwaith yn mynd rhagddo i lunio cynlluniau gweithlu ac uwchsgilio staff ymhellach yn y tymor byr i'r tymor canolig. Fodd bynnag, mae risgiau y mae angen i'r Cyngor eu rheoli'n rhagweithiol er mwyn sicrhau bod llwyth gwaith rheolwyr yn ymarferol ac y caiff gwelliannau allweddol i brosiectau eu cyflawni'n amserol.**

Yn fy Llythyr Diweddaru o ran Asesiad Corfforaethol 2011 a'm Hadroddiad Gwella Blynyddol 2012, argymhellais y dylai'r Cyngor 'sefydlu trefniadau mwy manwl a chyson o ran proffilio gofynion adnoddau dynol ar draws ei bortffolio prosiectau er mwyn sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau a gallu i gyflawni ei amcanion gwella'. Mewn ymateb, aeth y Cyngor ati i gynnal ymarfer mapio i nodi gofynion o ran gwasanaethau cymorth corfforaethol ar gyfer pob un o'i brosiectau gwella â blaenoriaeth. Heblaw am y prosiect moderneiddio ysgolion, mae adnoddau bellach wedi'u clustnodi ar gyfer pob un o brosiectau Cam 1. Mae gwaith yn mynd rhagddo i neilltuo digon o adnoddau i'r prosiectau sy'n weddill.

Dangosodd y gwaith mapio hefyd er bod staff wedi'u clustnodi i helpu i roi prosiectau ar waith, roedd rhai swyddogion yn ei chael hi'n fwyfwy anodd gwneud y gwaith prosiect ochr yn ochr â'u gwaith bob dydd. Mae hyn yn creu tensiwn a risgiau y mae angen i'r Cyngor eu rheoli'n rhagweithiol er mwyn sicrhau bod llwyth gwaith staff yn ymarferol ac y caiff prosiectau eu cyflawni'n amserol.

Mae'r Cyngor yn nodi gofynion o ran adnoddau dynol yn ystod ei brosesau cynllunio drwy wneud y canlynol:

- comisiynu prosiectau newydd sydd â chynllun adnoddau priodol yn unig;
- datblygu cynlluniau gweithlu ar gyfer gwasanaethau dros y ddwy flynedd nesaf;
- cyflwyno system arfarnu staff a chynlluniau datblygu personol newydd.

Dylai'r gwaith hwn wella gallu'r Cyngor i gysylltu adnoddau a sgiliau â'r gwaith o gyflawni ei amcanion gwella yn y tymor canolig. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor hanes da o gyflawni cyfres gynhwysfawr o gynlluniau gweithlu pwrpasol. Mae'r maes gwaith hwn wedi galw am gefnogaeth lawn uwch dîm arwain y Cyngor er mwyn lleihau'r risg o fethu, a bydd hyn yn parhau.

Mae'r Cyngor wedi dechrau uwchsgilio rhannau o'i weithlu. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi mynychu cwrs hyfforddi a mentora. Mae'r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu eu sgiliau rheoli newid ymhellach, a dechrau creu diwylliant o ddatblygu pobl drwy hyfforddiant yn y Cyngor. Mae dwy garfan o uwch reolwyr wedi dilyn cwrs Arwain sy'n anelu at wella eu sgiliau arwain staff a rheoli newid.

Mae'r Prif Weithredwr wedi cydnabod bod angen sicrhau newid sylfaenol mewn ymddygiad a fydd yn llywio newid diwylliannol er mwyn galluogi'r Cyngor i roi ei Gynllun Newid ar waith yn llwyddiannus. Penodwyd cwmni ymgynghori i lywio a chynorthwyo'r Prif Weithredwr a'i Gabinet newydd yn y gwaith hwn.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i lunio disgrifyddion terfynol ar gyfer cymwyseddau staff ac ymddygiadau dymunol. Bydd angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn parhau i roi systemau arfarnu staff a systemau dysgu a datblygu ar waith ar gyflymder addas. Heb ddatblygu'r gweithlu yn y modd hwn, efallai na fydd gan y Cyngor y gallu na'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei flaenoriaethau yn y dyfodol.

### Mae'r Cyngor wedi rhoi cynlluniau fforddiadwy ar waith i wella gwasanaethau ond ni all ddangos eu heffaith ar y gwasanaethau a ddarperir na chanlyniadau gwell i ddinasyddion i'r un graddau

Mae *Cynllun Newid Powys 2012-15* yn amlinellu blaenoriaethau'r Cyngor yn gymharol glir ac mae'r Gyllideb a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhoi darlun ariannol cytbwys dros y tymor byr, er ei fod yn llai clir dros y tymor canolig. Mae'r gwaith ymgynghori ac ymgysylltu a wnaed â dinasyddion/defnyddwyr gwasanaethau mewn perthynas ag amcanion y Cyngor a blaenoriaethau cyllidebol wedi dyddio rhywfaint. Mae lle hefyd i integreiddio gwaith cynllunio gwelliant a chynllunio ariannol yn well.

Mae'r Cyngor yn gwybod yn glir beth yw effaith y lleihad mewn arian cyhoeddus ac mae wedi gwella trefniadau pennu cyllidebau a oedd eisoes yn gadarn drwy gyflwyno Cynllun Ariannol Tymor Canolig pedair blynedd treigl sy'n nodi blaenoriaethau o ran buddsoddi ac arbedion effeithlonrwydd dros y tymor canolig. Fodd bynnag, dim ond ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf y rhoddir manylion ynghylch sut a ble y caiff arbedion eu gwneud. Y tu hwnt i effeithiau cwbl ariannol, prin yw'r dystiolaeth sydd ar gael i ddangos bod y Cyngor wedi asesu effaith bosibl yr arbedion arfaethedig neu'r newidiadau arfaethedig i wasanaethau.

Mae trefniadau monitro cynnydd ac adrodd ar gynnydd ym maes rheolaeth gyllidebol yn gadarn ymhlith swyddogion a'r Cabinet. Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau cynllunio busnes ac mae wrthi'n monitro cynnydd mewn perthynas â phrosiectau a chamau gweithredu, ond mae lle i hunanwerthuso'n fwy effeithiol p'un a gaiff canlyniadau bwriadedig eu cyflawni ai peidio.

## Ni fu dull y Cyngor o reoli cyllidebau ysgolion uwchradd yn effeithiol ac mae'n wynebu her sylweddol o hyd os yw am leihau diffygion cyllidebol ysgolion uwchradd yn y tymor byr a chael gwared arnynt yn gyfan gwbl yn y tymor hwy

Dros y cyfnod 2006-07 i 2010-11, roedd pump o 13 o ysgolion uwchradd y Cyngor yn gweithredu â gwargedion mawr ac mewn pump arall, roedd patrwm o ddiffygion ariannol a oedd yn cynyddu'n sylweddol. Ar ddiwedd 2011-12, ymddengys fod y sefyllfa wedi gwella rhywfaint a bod pedair o'r ysgolion â hanes o wargedion mawr wedi lleihau eu gwargedion cronnol yn sylweddol a bod un ysgol wedi symud o sefyllfa o ddiffyg ariannol i warged. Fodd bynnag, roedd dal i fod pedair ysgol uwchradd â diffygion cronnol cynyddol a didrwydded.

Mae cyllidebau ysgolion uwchradd wedi dod o dan bwysau cyllidebol drwy gyfuniad o gostau cynyddol, llai o ddisgyblion ar y gofrestr a phenderfyniad y Cyngor i ddargyfeirio arian o Addysg i Wasanaethau Cymdeithasol i Blant. Fodd bynnag, er i'r ffactorau hyn greu rhai anawsterau o bosibl, nid ydynt yn egluro'r amrywiadau sylweddol yn sefyllfa ariannol gronnol ysgolion unigol dros y cyfnod.

Mae ysgolion unigol wedi cyflawni canlyniadau cyllidebol hynod o amrywiol. Mae rhai wedi cyflawni gwargedion ar lefel a ddylai fod wedi peri pryder i'r Cyngor ers cryn amser tra bod eraill wedi cronni llawer iawn o ddiffygion didrwydded a ddylai hefyd fod wedi peri pryder. Ymddengys fod timau rheoli a/neu fyrddau llywodraethu ysgolion unigol naill ai heb gydnabod eu cyfrifoldeb am reoli cyllidebau neu nad oes ganddynt yr ymrwymiad na'r arbenigedd rheoli ariannol angenrheidiol.

Mae maint a hyd y problemau o ran cyllidebau ysgolion uwchradd yn dangos aneffeithiolrwydd dull y Cyngor o ddelio â'r mater hwn. Nid yw'r Cyngor wedi rhoi her gadarn ac amserol i'r ysgolion hynny sydd wedi dewis parhau i weithredu â diffygion mawr; nid yw wedi monitro p'un a yw'r ysgolion sydd heb yr arbenigedd perthnasol yn cymryd camau i ddatblygu'r arbenigedd hwnnw; ac mewn achosion eithriadol mae wedi bod yn araf i ddefnyddio'r pwerau ymyrryd sydd ar gael iddo.

Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod y sefyllfa o ran cyllidebau ysgolion uwchradd bellach yn anghynaliadwy. Ymddengys fod dull y Cyngor o reoli arian ysgolion, a ddiwygiwyd yn ddiweddar, yn briodol ond mae'n wynebu her sylweddol o hyd i leihau diffygion yn y tymor byr a chael gwared arnynt yn gyfan gwbl yn y tymor hwy.

### Mae'r Cyngor yn parhau i fireinio ei systemau corfforaethol ar gyfer adrodd ar ei berfformiad

Mae angen i bob cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn iddo ddarparu gwasanaethau da a'u gwella. Mae'r Cyngor yn parhau i fireinio ei systemau corfforaethol ar gyfer adrodd ar ei berfformiad a bydd fy staff, maes o law, yn archwilio'r systemau hyn i asesu pa mor effeithiol a dibynadwy ydynt. Yn y cyfamser dewiswyd cymysgedd o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol, Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus a Chyfresi Data Gwella Gwasanaethau i'w harchwilio. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r mesurau a ddewiswyd i farnu pa mor dda y mae'n cyflawni ei amcanion gwella a ph'un a yw'n gwneud gwahaniaeth i'w ddinasyddion.

O'r chwe dangosydd strategol cenedlaethol a archwiliwyd, cafodd un dangosydd ei amodi a bu'n rhaid cywiro tri oherwydd gwallau. Mae fy staff wedi rhoi canfyddiadau manwl i swyddogion er mwyn iddynt allu mynd i'r afael â'r rhesymau dros y gwallau hynny a ganfuwyd. Byddaf yn adrodd ymhellach ar berfformiad gwasanaethau yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

### Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd i fynd i'r afael â'm cynigion blaenorol ar gyfer gwella

Rwyf wedi nodi o'r blaen nifer o gynigion ar gyfer gwella a hefyd wedi nodi rhai meysydd lle y byddem yn gwneud rhagor o waith. Ceir disgrifiad o gynnydd mewn perthynas â'r materion hyn yn Atodiad 1. Mae'r rhan fwyaf o gamau gweithredu'r Cyngor yn dal i fynd rhagddynt, a bydd fy staff yn parhau i fonitro a chrynhoi cynnydd y Cyngor o ran eu gweithredu yn fy adroddiadau yn y dyfodol. Caiff rhagor o wybodaeth am fy nghanfyddiadau yn rhai o'r meysydd hyn ei rhoi ar wahân mewn diweddariadau interim i'r Cyngor lle y bo'n briodol.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Caiff rhai cynigion ar gyfer gwella eu hawgrymu yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol ac yn cyflwyno adroddiadau arno.

Dylai uwch dîm arwain y Cyngor wneud y canlynol:

| | |
|---|---|
| C1 | Monitro'n agos y gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithlu ar gyfer gwasanaethau a chyflwyno'r system arfarnu staff a'r cynlluniau datblygu personol newydd er mwyn sicrhau y caiff y prosiectau pwysig hyn eu cyflawni'n llwyddiannus ac yn amserol. |

O ran diffygion cyllidebol ysgolion, dylai'r Cyngor:

| | |
|---|---|
| C2 | Ymgynghori ar y cynllun diwygiedig i ariannu ysgolion a chanllawiau cysylltiedig. |
| C3 | Cyfuno'r camau sydd eu hangen i weithredu'r argymhellion perthnasol a geir yn yr adroddiadau archwilio mewnol, adroddiadau craffu ac adroddiadau Estyn mewn un cynllun cyffredinol er mwyn osgoi dyblygu a hwyluso trefniadau monitro gwell. |
| C4 | Monitro'n gadarn y cynnydd a wneir o ran cymryd camau gweithredu a gwerthuso a ydynt yn llwyddo i leihau diffygion cyllidebol ysgolion yn effeithiol ac yn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010. |

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd Tîm yr Asesiad Gwella yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflwyno fy ngwaith asesu.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith sy'n cael ei gyflawni yn ystod asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd. Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn benodol, byddaf yn gofyn i Dîm yr Asesiad Gwella ystyried yn ystod y flwyddyn faint y gallwn ddibynnu ar y prosesau hunanasesu (gan gynnwys eich adolygiad o lywodraethu wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad Perfformiad Blynyddol). Byddaf yn gwneud sylwadau ar y gwaith hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwy'n ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau hyd yn oed fwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihad mewn adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Colin Davies, Rheolwr

Justine Morgan, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 1

| Cynigion ar gyfer gwella | | Cynnydd |
|---|---|---|
| C1 | Adolygu terminoleg amcanion a gweithgareddau gwella, ynghyd â mesurau llwyddiant dethol er mwyn sicrhau eu bod wedi'u mynegi'n glir ac yn galluogi dinasyddion lleol i fonitro'r gwahaniaeth y mae'r Cyngor yn ei wneud i'w bywydau. | Mae'r Cyngor eto i fynd i'r afael â rhai o'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd gennyf yn flaenorol mewn perthynas â'r Cynllun. Mae'r Cyngor wedi ceisio symleiddio ei ddisgrifiadau o bob un o'i bum amcan gwella er mwyn canolbwyntio'n agosach ar ganlyniadau. Ond yn sgil hyn, mae rhai disgrifyddion bellach yn anghyson â'r camau gweithredu a nodwyd gan y Cyngor i'w cyflawni sy'n golygu ei bod yn anodd barnu graddau'r gwelliant yr anelir ato, neu'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud yn wahanol. |
| C2 | Datblygu dull corfforaethol mwy cydgysylltiedig o ymgysylltu â'r cyhoedd i sicrhau y caiff gweithgarwch ymgysylltu ei gynnal a'i werthuso'n fwy cyson er mwyn sicrhau ei fod yn gwella gwasanaethau a chanlyniadau i ddinasyddion yn effeithiol. | Paratowyd fframwaith corfforaethol drafft i ystyried yr 'Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru' a luniwyd gan Cyfranogaeth Cymru. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys canllawiau i swyddogion a ddylai roi mwy o gysondeb i weithgarwch ymgysylltu'r Cyngor ac mae hefyd yn pwysleisio'r angen am werthuso effeithiol. |
| C3 | Dylai arweinwyr y Cyngor, yn wleidyddion ac yn rheolwyr, hyrwyddo a meithrin diwylliant sy'n galw am hunanasesu perfformiad corfforaethol a pherfformiad gwasanaethau mewn ffordd agored a chytbwys, ac sy'n fwy gwerthusol a realistig o ran y cynnydd a wna'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gwella. | Mae'r Prif Weithredwr wedi cydnabod bod angen sicrhau newid sylfaenol mewn ymddygiad a fydd yn llywio newid diwylliannol er mwyn galluogi'r Cyngor i roi ei Gynllun Newid ar waith yn llwyddiannus. Mae'ngweithio gydag Arweinydd newydd a Chabinet y Cyngor i hyrwyddo a chyflawni'r newid diwylliannol sydd ei angen. Eleni, mae tîm rheoli'r Cyngor yn craffu ar ei hunanasesiad o berfformiad ac yn ei werthuso dros gyfres o gyfarfodydd. Y nod yw sicrhau ei fod yn rhoi adroddiad mwy cytbwys o gynnydd y Cyngor i gyflawni ei amcanion gwella. Mae'r Cyngor wedi gofyn am gymorth CLlLC i helpu i ddatblygu trefniadau hunanwerthuso gwell.<br>Byddaf yn parhau i asesu cynnydd yn y maes hwn a byddaf yn adrodd ar fy nghanfyddiadau yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol. |

| Cynigion ar gyfer gwella | | Cynnydd |
|---|---|---|
| C4 | Wrth asesu perfformiad y Cyngor ac adrodd arno, sicrhau bod digon o ddata priodol ar gael sy'n dangos nid yn unig beth a faint mae'r Cyngor yn ei wneud, ond hefyd y gwahaniaeth y mae'r Cyngor yn ei wneud i ganlyniadau i'w ddinasyddion. Adolygu amseriad, cynulleidfa a chynnwys adroddiadau ar gynnydd a pherfformiad er mwyn hwyluso gwell trefniadau gwneud penderfyniadau a herio perfformiad gwasanaethau yn gadarn. | Byddaf yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn rheoli perfformiad, yn arbennig mewn perthynas â'i amcanion gwella, a byddaf yn adrodd ar fy nghanfyddiadau yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol. |
| C5 | Wrth gyflwyno dulliau newydd o gasglu gwastraff ailgylchadwy a sbwriel ar draws y sir, mae angen i'r Cyngor graffu ar berfformiad a'i herio er mwyn sicrhau bod y camau hyn yn cael yr effaith ddymunol, sef cyflawni'r targedau ailgylchu sy'n gynyddol heriol a lleihau cost gwasanaethau gwastraff. | Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo wella perfformiad o ran cyflawni targedau ailgylchu sy'n gynyddol heriol ac mae hwn yn un o brosiectau'r rhaglen Newid yn yr Hinsawdd, sef un o amcanion gwella'r Cynllun Newid. Rydym yn bwriadu cynnal asesiad o gynnydd a byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau yn ein Hadroddiad ar yr Asesiad Gwella yn ddiweddarach yn y flwyddyn. |
| C6 | Rhoi trefniadau ar waith i sicrhau y caiff contractau a roddir i drydydd partïon sy'n darparu gwasanaeth ar ran y Cyngor eu monitro'n gadarn, a rhoi systemau sicrhau ansawdd priodol ar waith i:<br>• reoli a lliniaru risgiau;<br>• gwerthuso effaith y gwasanaethau;<br>• asesu eu gwerth am arian.<br>Dylai'r trefniadau hyn hefyd sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg. | Mae'r Cyngor yn adolygu ei drefniadau fel rhan o'i Strategaeth Comisiynu a Chaffael a chaiff help i wneud hyn gan PWC. Mae'r Cyngor yn ceisio sefydlu model gweithredu canolog neu 'hub and spoke'i gefnogi trefniadau comisiynu a chaffael o fewn strwythur y sefydliad. Ond, ym mis Gorffennaf 2012, penderfynodd Bwrdd y Rhaglen ohirio'r prosiect yn ffurfiol. Penderfynwyd gwneud hyn er mwyn aros i weld faint o gynnydd a wneir wrth gydweithredu â Chyngor Sir Ceredigion ym maes gofal cymdeithasol a chanlyniad adolygiad Hay, oherwydd credai'r Bwrdd y gallai'r ddau beth hyn gael effaith ar y strwythur sefydliadol y mae angen i'r model hwn ei gefnogi. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y prosiect hwn yn ystod ein gwaith. |